



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

# Adolygiad o Gleifion Allanol Dilydol – Asesiad o'r Cynnydd – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Blwyddyn archwilio: 2016

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 155A2017



Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os bydd cais yn cael ei dderbyn am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [info.officer@audit.wales](mailto:info.officer@audit.wales).

Andrew Doughton oedd yr unigolyn a gyflawnodd y gwaith.

# Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud peth cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad yn 2015, ond mae angen o hyd iddo wella'r ffordd y mae'n canfod risgiau clinigol, cyflymu'r broses o wella gwasanaethau, a rheoli materion sy'n dod i'r amlwg mewn gwasanaethau penodol.

## Adroddiad cryno

Cyflwyniad	4
Ein canfyddiadau	6
Argymhellion	8

## Atodiadau

Atodiad 1 – y cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud ers ein hargymhellion yn 2015	9
Atodiad 2 – risgiau sy'n dod i'r amlwg neu risgiau newydd a nodwyd sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cleifion allanol dilynol	15
Atodiad 3 – ymateb y rheolwyr	17

# Adroddiad Cryno

## Cyflwyniad

- 1 Mae gwasanaethau cleifion allanol yn gymhleth ac yn amlochrog, ac maent yn cyflawni rôl hollbwysig yn llwybrau cleifion. Mae perfformiad gwasanaethau cleifion allanol yn cael effaith fawr ar ganfyddiad y cyhoedd o ansawdd, ymatebolrwydd, ac effeithlonrwydd cyffredinol byrddau iechyd.
- 2 Mae adrannau cleifion allanol yn ymdrin â mwy o gleifion bob blwyddyn nag unrhyw adran ysbyty arall; maent yn destun tua thair miliwn o bresenoldebau cleifion y flwyddyn<sup>1</sup>, mewn lleoliadau lluosog ledled Cymru. Mynd i adran cleifion allanol yn dilyn presenoldeb cychwynnol neu gyntaf yw apwyntiad dilynol.
- 3 Yn ystod yr 20 mlynedd ddiwethaf, apwyntiadau cleifion allanol dilynol fu tua thri chwarter yr holl weithgarwch cleifion allanol ledled Cymru. Cleifion allanol dilynol yw'r rhan fwyaf o'r holl weithgarwch cleifion allanol, ac mae'n bosibl y byddant yn cynyddu ymhellach oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio a all ymgylwyno â chyflyrau cronig ac achosion o gyd-afiachusrwydd cynyddol. Nid yw apwyntiadau dilynol sy'n rhan o'r pecyn triniaeth ei hun, er enghraifft i roi meddyginiaeth, neu i adolygu cyflwr claf, yn ddarostyngedig i dargedau prydlondeb a bennir gan Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, rheolir y rhain yng nghyd-destun canllawiau clinigol a dyddiadau dilynol targed y penderfynir arnynt yn lleol.
- 4 Ers mis Ionawr 2015, bu'n ofynnol i bob bwrdd iechyd gyflwyno datganiad misol i Lywodraeth Cymru yn nodi nifer y cleifion sy'n aros (yn destun oedi) ar ddiwedd pob mis am apwyntiad dilynol claf allanol, ar sail ei ddyddiad targed<sup>2</sup>. Fel rhan o'i Fframwaith Canlyniadau i'r GIG ar gyfer 2016-17<sup>3</sup>, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys targed canlyniad diwygiedig i leihau nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiad dilynol claf allanol ac y mae eu dyddiad targed cytunedig wedi mynd heibio.
- 5 Fel rhan o raglen archwilio 2015, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol adolygiad o gleifion allanol dilynol ym mhob un o'r saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Ceisiodd yr adolygiad ateb y cwestiwn 'A yw'r Bwrdd Iechyd yn rheoli apwyntiadau cleifion allanol dilynol yn effeithiol?'
- 6 Gwnaethom gyflwyno ein canfyddiadau ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) ym mis Medi 2015, gan ddod i'r casgliad bod 'gwybodaeth am nifer yr apwyntiadau cleifion allanol dilynol gohiriedig wedi gwella ond [bod] gan y Bwrdd Iechyd fwy i'w wneud i nodi galw gwirioneddol, i asesu risgiau clinigol, i wella trefniadau craffu'r Bwrdd ac i foderneiddio gwasanaethau cleifion allanol'. Wrth lunio'r casgliad hwn, gwnaethom ganfod:

<sup>1</sup> Ffynhonnell: Stats Cymru, Data cryno ar gleifion allanol dan ofal meddygon ymgynghorol.

<sup>2</sup> Y dyddiad targed yw'r dyddiad erbyn pryd y dylai'r claf fod wedi cael ei apwyntiad dilynol.

<sup>3</sup> Cylchlythyr Iechyd Cymru (2016) 023

- bod dull systematig o nodi nifer y cleifion allanol dilynol ond bod angen i'r Bwrdd lechyd nodi pa gleifion y mae dal i fod angen eu gweld ac asesu'r risgiau clinigol sy'n gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol gohiriedig;
- bod y Bwrdd lechyd wedi lleihau nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiad dilynol, ond bod ganddo fwy i'w wneud a bod angen iddo wella trefniadau craffu a rhoi sicrwydd; a
- bod y Bwrdd lechyd yn datblygu cynlluniau i wella rheolaeth cleifion allanol, ond y byddai'n anodd darparu'r cynlluniau hyn yn llwyddiannus.

7 Yn 2015, gwnaeth ein hadroddiad yr argymhellion a ganlyn, a nodir yn **Arddangosyn 1**.

### Arddangosyn 1: argymhellion a wnaed yn 2015

<b>Argymhellion</b>	
<b>Adrodd ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol</b>	
A1	Gwella'r wybodaeth sydd ar gael ar gyfer cleifion dilynol sydd wedi derbyn apwyntiad, i reoli risgiau clinigol cysylltiedig yn well a gallu cydymffurfio â gofynion adrodd Llywodraeth Cymru.
A2	Gwella'r ystod o wybodaeth am berfformiad a adroddir yn rheolaidd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion, gan sicrhau ei bod yn cynnwys amrywiaeth ehangach o arbenigeddau a'i bod yn hysbysu'n eglur am risgiau clinigol sy'n gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol gohiriedig.
<b>Asesu risg clinigol</b>	
A3	Nodi cyflyrau clinigol ar draws pob arbenigedd lle gallai cleifion gael niwed parhaol pe bai oediadau cyn derbyn apwyntiadau dilynol. Datblygu ymyriadau wedi'u targedu i leihau'r risg i gleifion â'r cyflyrau hyn sy'n cael eu hoedi y tu hwnt i'w dyddiad targed dilynol.
<b>Llwybrau lefel cyflwr clinigol</b>	
A4	Yn rhan o'r Rhaglen Gweddnewid Cleifion Allanol, datblygu a gweithredu llwybrau cyflyrau clinigol darbodus (fel y rhai a sefydlwyd eisoes ar gyfer Cataractau), er mwyn gwella ansawdd, diogelwch ac effeithlonrwydd y gwasanaeth.
<b>Gweddnewidiad ar gyfer cleifion allanol</b>	
A5	Ystyried a nodi'r trefniadau rheoli newid er mwyn cyflymu darpariaeth y Rhaglen Gweddnewid Cleifion Allanol hirdymor a ddylai gynnwys ystyriaeth o: <ul style="list-style-type: none"> <li>• adnoddau clinigol, gan gynnwys yr ymarferwyr meddygol, nyrso a pherthynol i iechyd sydd eu hangen;</li> <li>• y capasiti i newid a'r sgiliau sy'n ofynnol; ac</li> <li>• ymgysylltiad mewnol ac allanol â rhanddeiliaid.</li> </ul>

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

- 8 Fel rhan o'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2016, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnwys gwaith lleol i olrhain y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd lechyd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn yr [Adolygiad o Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol](#) yn 2015. Cychwynnodd y broses hon o asesu'r cynnydd ym mis Tachwedd 2016 a gofynnodd y cwestiwn a ganlyn: **A yw'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd digonol mewn ymateb i'r canfyddiadau a'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad gwreiddiol?**
- 9 Wrth ymgymryd â'r broses hon o asesu'r cynnydd, rydym wedi:
- adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys adroddiadau i'r bwrdd a phwyllgorau;
  - cael ein sicrhau gan waith yr archwilwyr mewnol, gan nodi'r meysydd penodol sy'n peri risg neu bryder y maent wedi'u nodi;
  - cynnal dadansoddiad lefel uchel o ddata diweddar y Bwrdd lechyd a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad ag apwyntiadau dilynol cleifion allanol; a
  - chyfweld nifer o staff y Bwrdd lechyd i drafod cynnydd, materion presennol, a heriau'r dyfodol.
- 10 Mae crynodeb o'n canfyddiadau wedi'i gyflwyno yn yr adran a ganlyn, a darperir gwybodaeth fwy manwl yn [Atodiad 1](#).

## Ein canfyddiadau

- 11 Ein casgliad cyffredinol yw bod y Bwrdd lechyd wedi gwneud peth cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad yn 2015, ond mae angen o hyd iddo wella'r ffordd y mae'n canfod risgiau clinigol, cyflymu'r broses o wella gwasanaethau, a rheoli materion sy'n dod i'r amlwg mewn gwasanaethau penodol.
- 12 I grynhoi, mae statws y cynnydd a wnaed yn ôl pob un o'r argymhellion blaenorol i'w weld yn [Arddangosyn 2](#).

### Arddangosyn 2: statws argymhellion 2015

Cyfanswm nifer yr argymhellion	Gweithredwyd	Ar waith	Hwyr	Wedi'i ddisodli
5	1	3	1	-

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

- 13 Canfuom fod y Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd yn ôl pob un o'r argymhellion, er bod y broses wella'n mynd rhagddi'n araf mewn rhai meysydd:

- erbyn hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r gofyniad iddo gyflwyno data am gleifion allanol dilynol yng nghyswllt cleifion nad ydynt wedi cael apwyntiad<sup>4</sup> a'r rhai sydd wedi cael apwyntiad<sup>5</sup>, yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru.
- mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn cael gwybodaeth ac mae'n parhau i ganolbwyntio'n dda ar wasanaethau offthalmoleg. Rhoddwyd gwybod hefyd i'r Pwyllgor am risgiau a chynnydd o ran cleifion allanol dilynol mewn gwasanaethau cardioleg, diabetes, ac endosgopi. Fodd bynnag, nid yw wedi cael fawr o sicrwydd ynglŷn â'r risgiau clinigol cyffredinol sy'n gysylltiedig ag oedi, neu'r arbenigeddau neu'r cyflyrau clinigol sy'n cyflwyno'r risg fwyaf o niwed oherwydd oedi. Mae rhai arbenigeddau'n dechrau asesu eu risgiau eu hunain a chymryd camau gwella lleol.
- mae newidiadau i drefniadau'r grŵp rheoli a phersonél wedi creu problemau o ran parhad yr arweinyddiaeth; er hynny, mae nifer o gyfarwyddiaethau wedi cyflwyno mentrau i helpu i weddnewid a gwella llwybrau cleifion allanol.
- er bod y broses weddnewid a arsylwyd yn gadarnhaol, mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn adeiladu ar sail y cynnydd hwn er mwyn sicrhau bod y broses ehangach o weddnewid gwasanaethau cleifion allanol, sy'n angenrheidiol o hyd, yn mynd rhagddi

14 Wrth ymgymryd â'r broses hon o asesu'r cynnydd, rydym hefyd wedi nodi risgiau newydd mewn cysylltiad â chleifion allanol dilynol. Nodir y rhain yn **Arddangosyn 3**.

### Arddangosyn 3: risgiau newydd a nodwyd yn ystod ein gwaith

Risgiau newydd	
Maes	Disgrifiad
Nifer yr achosion o oedi i gleifion allanol dilynol	Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da i leihau nifer y cleifion y cafodd eu hapwyntiad dilynol ei ohirio yn 2015, bu twf cyffredinol cyson yn nifer y cleifion a brofodd oedi yn 2016.
Wroleg a Gastroenteroleg	Cafwyd twf sylweddol yn nifer y cleifion a brofodd oedi tra oeddent yn aros am apwyntiadau dilynol ym meysydd wroleg a gastroenteroleg.

Ffynhonnell yr arddangosyn: Swyddfa Archwilio Cymru

15 Mae rhagor o fanylion am y risgiau newydd a nodwyd i'w gweld yn **Atodiad 2**. Yn yr ymateb gan ei reolwyr, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi y disgwylir gwelliannau i berfformiad yn sgil camau ychwanegol y mae wedi'u cymryd.

<sup>4</sup> Cleifion nad ydynt wedi cael apwyntiad – cleifion sydd ar y rhestr aros ar gyfer apwyntiad dilynol ond nad oes dyddiad apwyntiad wedi'i drefnu iddynt.

<sup>5</sup> Cleifion sydd wedi cael apwyntiad – cleifion sydd ar y rhestr aros ar gyfer apwyntiad dilynol ond sydd â dyddiad apwyntiad wedi'i drefnu iddynt.

## Argymhellion

- 16 O ganlyniad i'r risgiau newydd a nodwyd, rydym wedi gwneud un argymhelliad newydd. Ar ben hynny, mae angen i'r Bwrdd Iechyd Barhau i wneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion y mae angen eu cwblhau o hyd. Mae'r argymhellion hyn, ynghyd â'r argymhelliad newydd, i'w gweld yn [Arddangosyn 4](#).

### Arddangosyn 4: argymhellion

<b>Argymhellion 2015 y mae angen eu cwblhau o hyd</b>	
<b>Adrodd ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol</b>	
A2	Gwella'r ystod o wybodaeth am berfformiad a adroddir yn rheolaidd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion, gan sicrhau ei bod yn cynnwys amrywiaeth ehangach o arbenigeddau a'i bod yn hysbysu'n eglur am risgiau clinigol sy'n gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol gohiriedig.
<b>Asesu risg clinigol</b>	
A3	Nodi cyflyrau clinigol ar draws pob arbenigedd lle gallai cleifion gael niwed parhaol pe bai oediadau cyn derbyn apwyntiadau dilynol. Datblygu ymyriadau wedi'u targedu i leihau'r risg i gleifion â'r cyflyrau hyn sy'n cael eu hoedi y tu hwnt i'w dyddiad targed dilynol.
<b>Llwybrau lefel cyflwr clinigol</b>	
A4	Yn rhan o'r Rhaglen Gweddnewid Cleifion Allanol, datblygu a gweithredu llwybrau cyflyrau clinigol darbodus (fel y rhai a sefydlwyd eisoes ar gyfer Cataractau), er mwyn gwella ansawdd, diogelwch ac effeithlonrwydd y gwasanaeth.
<b>Gweddnewidiad ar gyfer cleifion allanol</b>	
A5	Ystyried a nodi'r trefniadau rheoli newid er mwyn cyflymu darpariaeth y Rhaglen Gweddnewid Cleifion Allanol hirdymor a ddylai gynnwys ystyriaeth o: <ul style="list-style-type: none"><li>• adnoddau clinigol, gan gynnwys yr ymarferwyr meddygol, nyrso a pherthynol i iechyd sydd eu hangen;</li><li>• y capasiti i newid a'r sgiliau sy'n ofynnol; ac</li><li>• ymgysylltiad mewnol ac allanol â rhanddeiliaid.</li></ul>
<b>Argymhelliad newydd</b>	
A6	Sicrhau y rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion am risgiau clinigol sy'n deillio'n benodol o gynnydd mewn achosion o oedi i apwyntiadau wroleg a gastroenteroleg.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru



# Atodiad 1

## Y cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud ers ein hargymhellion yn 2015

### Arddangosyn 5: asesiad o'r cynnydd

Argymhelliad	Y dyddiad targed ar gyfer ei weithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd	
<b>Adrodd ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol</b>				
A1	Gwella'r wybodaeth sydd ar gael ar gyfer cleifion dilynol sydd wedi derbyn apwyntiad, i reoli risgiau clinigol cysylltiedig yn well a gallu cydymffurfio â gofynion adrodd Llywodraeth Cymru.	Roedd yr amseriad yn dibynnu ar yr adeg y byddai modiwlau newydd y System Weinyddu i Gleifion, sef system Myrddin, ar gael.	<b>Gweithredwyd</b>	Pan gynhaliwyd yr adolygiad gwreiddiol, nid oedd y Bwrdd Iechyd ond yn cyflwyno'r wybodaeth am gleifion nad oeddent wedi cael apwyntiad yn ôl gofyniad gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno gwybodaeth am gleifion nad oeddent wedi cael apwyntiad a'r rhai a oedd ag apwyntiad. Roedd y Bwrdd Iechyd yn dibynnu ar y broses o weithredu'r modiwl system Myrddin newydd er mwyn cynhyrchu'r data hyn, ac yn sgil y broses weithredu bu'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno'r data am gleifion allanol dilynol sydd wedi cael apwyntiad i Lywodraeth Cymru ers mis Hydref 2016. Felly, mae'r argymhelliad hwn wedi'i gwblhau.
A2	Gwella'r ystod o wybodaeth am berfformiad a adroddir yn rheolaidd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion, gan sicrhau ei bod yn cynnwys amrywiaeth ehangach o arbenigeddau a'i bod yn hysbysu'n eglur am risgiau clinigol sy'n	Rhagfyr 2015	<b>Hwyr</b>	Cafwyd ffocws da a chyson yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion ar risgiau a chynnydd mewn cysylltiad â gwasanaethau offthalmoleg. Mae'r sicrwydd a ddarparwyd gan y rheolwyr i'r pwyllgor yn canolbwyntio ar liniaru risg ac, yn rhan o hynny, y broses o gyflawni'r cynllun adfer gofal llygaid. Mae gwybodaeth hefyd wedi'i chyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion am gardioleg, diabetes, ac endosgopi, a ddylai helpu eto i roi hyder ynglŷn â'r risgiau y mae'r tair agwedd hon ar y gwasanaeth yn eu hwynebu. Ar ben hynny, ym mis Medi 2016, cafodd y Bwrdd adroddiad Cryno Blynnyddol Gwasanaethau Canser ar gyfer 2015-16. Nododd hwn nifer o heriau sy'n ymwneud ag argaeledd a

Argymhelliad	Y dyddiad targed ar gyfer ei weithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol gohiriedig.			<p>chapasiti clinigau yn ogystal â materion sy'n ymwneud â gwasanaethau endosgopi ac amseroedd aros apwyntiadau cleifion allanol yr effeithiwyd arnynt.</p> <p>Fodd bynnag, mae'n bosibl fod nifer o arbenigeddau lle y gall y risg glinigol sy'n gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol gohiriedig fod yn un fawr, ond nid yw'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion wedi cael adroddiad hyd yn hyn sy'n dangos ble y gall y risgiau hyn fod i'w cael. Mae ein dadansoddiad o ddata'r Bwrdd Iechyd wedi dangos bod oedi cynyddol ym meysydd wroleg a gastroenteroleg, a bod posibilrwydd y bydd rhai o'r cleifion hyn yn dod i gysylltiad â chanlyniadau clinigol oherwydd oedi. Rydym wedi nodi'r mater hwn yn risg newydd yn <b>Atodiad 2</b> i'r adroddiad hwn, ynghyd ag argymhelliad ychwanegol y dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried yn benodol y risgiau sy'n gysylltiedig â'r ddau arbenigedd hyn yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion.</p>
<b>Risg glinigol</b>			
<p>A3 Nodi cyflyrau clinigol ar draws pob arbenigedd lle gallai cleifion gael niwed parhaol pe bai oediadau cyn derbyn apwyntiadau dilynol. Datblygu ymyriadau wedi'u targedu i leihau'r risg i gleifion â'r cyflyrau hyn sy'n cael eu hoedi y tu hwnt i'w dyddiad targed dilynol.</p>	Rhagfyr 2015	Ar waith	<p>Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi llunio asesiad risg ar gyfer cleifion allanol dilynol hyd yma er mwyn canfod ble y gallai apwyntiadau gohiriedig arwain at niwed. Fodd bynnag, mae rhai arbenigeddau'n dechrau asesu eu risgiau eu hunain a chymryd camau gwella lleol i helpu i liniaru'r risgiau y maent wedi'u canfod.</p> <p>Canfu'r adolygiad gwreiddiol yn 2015 mai ychydig o waith yr oedd y Bwrdd Iechyd yn ei wneud i ganfod proffiliau risg lefel arbenigedd penodol ar lefel cyfarwyddiaethau ac arbenigeddau. Er nad ydym wedi gweld dim tystiolaeth o unrhyw waith i bennu safbwynt sy'n berthnasol i'r gorfforaeth gyfan ynglŷn â risg, rydym yn ymwybodol o nifer o enghreifftiau lle y mae is-adrannau a chyfarwyddiaethau'n mynd ati'n fwy gweithredol i reoli'r proffil risg o ran y rhestr aros i gleifion allanol dilynol. Mae hyn yn arwain at gamau adferol ar draws nifer o gyflyrau ac arbenigeddau.</p> <p>Ymysg yr enghreifftiau a ddarparwyd o feysydd lle y mae risgiau clinigol yn cael eu rheoli'n fwy gweithredol mae cardiolog, ac yn arbennig cleifion falf y galon, gastroenteroleg, gwasanaethau'r genau a'r wyneb, a chleifion canser. Mae'r ystod o ymyriadau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• blaenoriaethu cleifion risg uchel gan ddefnyddio system o faneri coch;</li> <li>• cynyddu nifer y clinigau cyffredinol;</li> <li>• newid y templedi sy'n arwain at leihau nifer y cleifion newydd a chynyddu nifer yr apwyntiadau dilynol; a</li> </ul>

Argymhelliad	Y dyddiad targed ar gyfer ei weithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
			<ul style="list-style-type: none"> <li>• threfnu i waith gael ei wneud yn fewnol neu'n allanol er mwyn creu capasiti ychwanegol i leihau nifer y cleifion sy'n destun oedi.</li> </ul> <p>Ar ben hynny, mae'r drefn o uwchgyfeirio materion ynglŷn â rhestrau aros apwyntiadau dilynol at gyfarfodydd is-adrannau gweithredol, a chyfarfodydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig, a defnyddio cofrestrau risg arbenigeddau, yn mynd rhagddi'n fwy rheolaidd na'r drefn y gwnaethom ei harsylwi yn yr adolygiad gwreiddiol.</p> <p>Rydym yn deall nad yw'r systemau ar gyfer codio cleifion allanol a chanlyniadau cleifion yn ddigon cadarn hyd yma er mwyn gallu cyfrannu at adolygiad dadansoddol o risg ar lefel cyflyrau.</p> <p>O ganlyniad, bydd angen i'r asesiad o risg ar lefel cyflyrau a wneir â dulliau ansoddol, sydd wedi'i fabwysiadu eisoes mewn nifer o arbenigeddau, barhau a chael ei fabwysiadu'n ehangach ar draws pob arbenigedd.</p>
<b>Llwybrau lefel cyflwr clinigol</b>			
<p>A4 Yn rhan o'r Rhaglen Gweddnewid Cleifion Allanol, datblygu a gweithredu llwybrau cyflyrau clinigol darbodus (fel y rhai a sefydlwyd eisoes ar gyfer Cataractau), er mwyn gwella ansawdd, diogelwch ac effeithlonrwydd y gwasanaeth.</p>	Mawrth 2016	Ar waith	<p>Mae nifer o fentrau ar lefel cyfarwyddiaethau sy'n gweddnewid gwasanaethau cleifion allanol. O gofio natur a chymhlethdod gwasanaethau cleifion allanol a llwybrau cleifion cysylltiedig, mae rhagor i'w wneud o hyd. Mae nifer o enghreifftiau o fentrau wedi'u nodi isod, sy'n dangos faint o gynnydd sy'n cael ei wneud yn rhai o feysydd arbenigedd y Bwrdd Iechyd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fynd ati i reoli risgiau offthalmoleg drwy nifer o elfennau gwaith, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>– trefnu i waith gael ei wneud yn fewnol gan ddarparwyr allanol (yn arbennig yng nghyswllt cataractau);</li> <li>– datblygu gwasanaethau tele-amranta i leihau'r amser rhwng y ddiagnosteg a'r driniaeth neu ddewis arall ar gyfer rheoli cyflwr;</li> <li>– cyflwyno nyrsys arbenigol sy'n ymgymryd â phigiadau erbyn hyn ar gyfer Dirywiad Macwlaidd Gwlyb sy'n gysylltiedig â Henaint; a</li> <li>– datblygu cytundebau gwasanaeth wedi'u gwella'n lleol mewn lleoliad optometreg gofal sylfaenol, gan gynnwys y Ganolfan Ddiagnostig a Thriniaeth Offthalmoleg arloesol a agorwyd yn ddiweddar yng Nghasnewydd, a chreu swyddi swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid.</li> </ul> </li> <li>• Mae'r Strategaeth Therapi a Gwyddor Iechyd wedi nodi gwelliannau ar gyfer cleifion allanol ffisiotherapi yn benodol, gan gynnwys gweithio dros saith diwrnod</li> </ul>

Argymhelliad	Y dyddiad targed ar gyfer ei weithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
			<p>ac am gyfnod estynedig mewn diwrnod. Drwy wneud hynny, mae wedi canfod manteision, sy'n cynnwys llif gwell o ran cleifion allanol, a gwell mynediad at y gwasanaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r gyfarwyddiaeth orthopedeg yn nodi ei bod wedi gwneud nifer o welliannau dros y 18 mis diwethaf, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>– cyflwyno dull o ryddhau'r cleifion sy'n cael eu monitro'n rheolaidd mewn clinig ysbyty ar hyn o bryd i ofal sylfaenol. Mae hyn wedi'i ategu drwy gyflwyno llwybr 'gweld ar adeg ymddangosiad symptom' i'r garfan hon o gleifion, os yw eu cyflwr yn gwaethygu;</li> <li>– datblygu gwasanaeth llwybr 'un stop' yng nghyswllt twnnel y carpws;</li> <li>– cynyddu'r cymysgedd o sgiliau yn y clinig toresgyrn drwy gyflwyno gwasanaeth sy'n cael ei arwain gan feddygon ymgynghorol, sy'n osgoi'r angen i'r Bwrdd lechyd alw cleifion yn ôl i gael apwyntiad ychwanegol; a</li> <li>– chyflwyno Rhaglen Osteoarthritis y Pen-glin (OAK), sy'n addysgu cleifion am yr ystod o ddewisiadau sydd ar gael o ran triniaethau clinigol.</li> </ul> </li> </ul> <p>Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn mynd rhagddo'n arafach yng nghyswllt newidiadau i lwybrau ar gyfer y glun a'r pen-glin, hynny yw, cyflwyno trefn o ryddhau'n gynt o'r rhestr aros apwyntiadau dilynol. Y rheswm am hynny yw nad yw'r clinigwyr yn fodlon eto eu bod yn gallu monitro canlyniadau clinigol. Mae'n bosibl y bydd gwaith addawol gyda'r Consortiwm Rhyngwladol ar gyfer Mesur Canlyniadau lechyd (ICHOM)<sup>6</sup>, ar gyflwyno dulliau o fesur canlyniadau a nodir gan gleifion, yn creu cyfle yn y pen draw i leihau nifer yr apwyntiadau dilynol cleifion allanol yn y llwybr triniaeth.</p> <p>Mae'r Bwrdd lechyd hefyd wedi tynnu sylw at nifer o fentrau eraill sy'n cael eu datblygu, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwasanaethau'r genau a'r wyneb, lle y mae'r Bwrdd lechyd wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen sy'n ystyried galw gan gleifion allanol dilynol a newydd yn ogystal â chydabod bod angen canllawiau clinigol ar gyfer cyflyrau;</li> <li>• datblygu llinell gyngor ynglŷn â'r glust, y trwyn a'r gwddf i ymarferwyr cyffredinol er mwyn iddynt allu cael gafael ar gyngor arbenigol heb orfod atgyfeirio at glinig; ac</li> </ul>

<sup>6</sup> International Consortium for Health Outcomes Measurement

Argymhelliad	Y dyddiad targed ar gyfer ei weithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
			<ul style="list-style-type: none"> <li>• adolygu'r twf yn y galw am y gwasanaeth teleddermatoleg a'r adnoddau sydd eu hangen i'w ategu.</li> </ul> <p>Er nad yw'n wasanaeth sy'n gweddnewid yn benodol, mae gwasanaeth newydd wedi'i gyflwyno gan y Bwrdd Iechyd i atgoffa cleifion am apwyntiadau drwy gyfrwng negeseuon testun. Mae'r gwasanaeth hwn yn lleihau nifer yr apwyntiadau sy'n cael eu methu. Ym mis Tachwedd 2016, rhoddodd y Bwrdd Iechyd wybod ei fod yn cyflawni lefelau lawer is o ran yr apwyntiadau cleifion allanol sy'n cael eu methu, wrth i'r cyfraddau ostwng o 8.8% ym mis Medi 2015 i 6.4% erbyn mis Medi 2016.</p>
<b>Gweddnewidiad ar gyfer cleifion allanol</b>			
<p>A5 Ystyried a nodi'r trefniadau rheoli newid er mwyn cyflymu darpariaeth y Rhaglen Gweddnewid Cleifion Allanol hirdymor a ddylai gynnwys ystyriaeth o:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• adnoddau clinigol, gan gynnwys yr ymarferwyr meddygol, nyrsio a pherthynol i iechyd sydd eu hangen;</li> <li>• y capasiti i newid a'r sgiliau sy'n ofynnol; ac</li> <li>• ymgysylltiad mewnol ac allanol â rhanddeiliaid.</li> </ul>	Mawrth 2016	Ar waith	<p>Er y bu diffyg parhad o ran arweinyddiaeth oherwydd newidiadau i grwpiau rheoli a phersonél, mae nifer o gyfarwyddiaethau ac arbenigeddau wedi cyflwyno trefniadau i'w helpu i gyflawni gwelliannau i'r llwybr cleifion allanol.</p> <p>Yn 2015, roedd gan y Bwrdd Iechyd ddau grŵp sefydledig ar gyfer gwella'r dull o reoli cleifion allanol: y Grŵp Gwella Apwyntiadau Dilydol Cleifion Allanol oedd un o'r rhain, a oedd yn ategu'r gwaith o gyflawni gwelliannau gweithredol fel gwella ansawdd data; a'r Rhaglen Gweddnewid Cleifion Allanol oedd y llall. Ers ein hadolygiad gwreiddiol, cafwyd trosiant ymysg yr uwch-reolwyr, sydd wedi arwain at ddiffyg parhad o ran y grwpiau.</p> <p>Ers i'r adolygiad gwreiddiol gael ei gynnal, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno Grŵp Llywio ar gyfer y Rhaglen Gweddnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol i oruchwylio'r gwaith o gyflawni Rhaglen Gweddnewid Cleifion Allanol y Bwrdd Iechyd. Mae'r Grŵp hwn yn cyflwyno adroddiadau i Fwrdd Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn defnyddio ABCi<sup>7</sup> i wella capasiti a sgiliau er mwyn cynorthwyo'r broses o weddnewid gwasanaethau cleifion allanol. Cawn ar ddeall hefyd y bydd peth capasiti cynllunio canolog ychwanegol yn cael ei ddarparu er mwyn helpu i ddylunio a chydgyssylltu'r broses o wella a gweddnewid gwasanaethau. Mae ABCi yn nodi bod gan y tîm rhywfaint o gapasiti i hwyluso'r broses o wella gwasanaethau cleifion allanol, ond bydd angen i gyfarwyddiaethau, arbenigeddau, ac is-arbenigeddau ddefnyddio'u hadnoddau eu hunain i gyflawni'r newid gofynnol. Mae hyn yn parhau'n her oherwydd mae</p>

<sup>7</sup> ABCi (Gwelliant Parhaus Aneurin Bevan, *Aneurin Bevan Continuous Improvement*) yw'r enw ar yr adran sy'n galluogi newidiadau a phrosesau gweddnewid gan ddefnyddio modelau gwella dadansoddol ac sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth.

Argymhelliad	Y dyddiad targed ar gyfer ei weithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
			<p>adnoddau clinigol yn dal i gael eu hymestyn, ac yn aml y meysydd hynny y mae angen eu gwella fwyaf yw'r rhai lle y mae'r capasiti clinigol yn peri pryder. Mae hynny, yn ei dro, yn ei gwneud yn anodd rhyddhau'r capasiti o ran clinigwyr i gynorthwyo gwaith gwella.</p>

## Atodiad 2

### Risgiau sy'n dod i'r amlwg neu risgiau newydd a nodwyd sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cleifion allanol dilynol

Arddangosyn 6: asesiad o'r risgiau sy'n dod i'r amlwg

Maes	Canfyddiad
<b>Nifer yr achosion o oedi i gleifion allanol dilynol</b>	<p>Er i'r Bwrdd lechyd wneud cynnydd da i leihau'r achosion o oedi yn 2015, cafwyd twf cyffredinol cyson yn yr achosion o oedi i gleifion allanol dilynol yn 2016. Mae ein dadansoddiad o'r data'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• twf mewn achosion o oedi i gleifion allanol dilynol nad oeddent wedi cael apwyntiad o'r nifer a gafwyd ym mis Ebrill 2016, sef ychydig yn llai na 24,000, i fwy na 28,000 o achosion o oedi ym mis Hydref 2016. Ers mis Hydref 2016, mae'r Bwrdd lechyd wedi rhoi gwybod am ostyngiad yn nifer y cleifion a fu'n destun oedi i tua 26,000 ym mis Chwefror 2017; a</li><li>• chynnydd o'r nifer a gafwyd ym mis Ebrill 2016, sef 8,812, i 10,946 o gleifion ym mis Hydref 2016 o ran cyfanswm nifer y cleifion dilynol a fu'n destun oedi o fwy na 100% (sef dros ddwywaith y cyfnod y dylent fod wedi aros). Ers mis Hydref 2016, mae'r Bwrdd lechyd wedi rhoi gwybod am leihad o ran y cleifion a fu'n destun oedi o 100%, i tua 9,500 ym mis Chwefror 2017.</li></ul>
<b>Wroleg a Gastroenteroleg</b>	<p>Bu twf sylweddol yn nifer y cleifion dilynol ym meysydd wroleg a gastroenteroleg a fu'n destun oedi. O gofio y gall rhywfaint o risg glinigol fod yn gysylltiedig â'r twf hwn o ran oedi, gallai'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion fod am gael asesiad risg mwy manwl a phenderfynu ar ei anghenion sicrwydd. Mae ein dadansoddiad o'r data'n dangos bod pwysau cynyddol ym meysydd wroleg a gastroenteroleg sydd wedi arwain at gynnydd yn y rhestr aros cleifion allanol dilynol o 290% a 62%, yn y drefn honno, dros gyfnod o naw mis hyd at fis Hydref 2016. Mae'r Bwrdd lechyd yn ymwybodol o'r mater hwn. Mae cyfarwyddiaethau'n ymgymryd â gwaith ychwanegol i ganfod graddau'r risgiau i gleifion ac maent yn cymryd camau i wella'r sefyllfa erbyn mis Chwefror 2017.</p> <p>Mae ein dadansoddiad data o'r rhestr aros i gleifion allanol dilynol ym maes wroleg yn dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• twf mewn achosion o oedi i gleifion nad oeddent wedi cael apwyntiad, o nifer y cleifion a fu'n destun oedi ym mis Rhagfyr 2015, sef 554, i 1,605 o gleifion a fu'n destun oedi ym mis Hydref 2016; a</li><li>• chynnydd o'r nifer ym mis Rhagfyr 2015, sef 234, i 667 o gleifion ym mis Hydref 2016 o ran cyfanswm nifer y cleifion dilynol a fu'n destun oedi o fwy na 100% (sef dros ddwywaith y cyfnod y dylent fod wedi aros).</li></ul> <p>Mae ein dadansoddiad data o'r rhestr aros i gleifion allanol dilynol ym maes gastroenteroleg yn dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• twf mewn achosion o oedi i gleifion nad oeddent wedi cael apwyntiad, o nifer y cleifion a fu'n destun oedi ym mis Rhagfyr 2015, sef 2,372, i 3,417 o gleifion a fu'n destun oedi ym mis Hydref 2016; a</li></ul>

Maes	Canfyddiad
	<ul style="list-style-type: none"><li data-bbox="488 188 2058 245">• chynnydd o'r nifer a gafwyd ym mis Rhagfyr 2015, sef 1,087, i 1,766 o gleifion ym mis Hydref 2016 o ran cyfanswm nifer y cleifion dilynol a fu'n destun oedi o fwy na 100% (sef dros ddwywaith y cyfnod y dylent fod wedi aros).</li></ul>



# Atodiad 3

## Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion newydd sy'n ymwneud â chleifion allanol dilynol

Mae ymateb y rheolwyr y Bwrdd Iechyd i argymhelliad ychwanegol a wnaed yn y diweddariad hwn yn [Arddangosyn 7](#) isod.

### Arddangosyn 7: ymateb y rheolwyr

Cyf	Argymhelliad	Y canlyniad/mantais a fwriedir	Blaenor iaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A6	Sicrhau y rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion am risgiau clinigol sy'n deillio'n benodol o gynnydd mewn achosion o oedi i apwyntiadau wroleg a gastroenteroleg.	Sicrwydd bod y risgiau clinigol sy'n gysylltiedig â'r oedi cyn cael apwyntiadau dilynol ym meysydd wroleg a gastroenteroleg yn cael eu rheoli.	Ydy	Do	<p>Fel y nodwyd, mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion gwasanaeth penodol (ee offthalmoleg ddilynol).</p> <p>Mae'r cynnydd o ran cleifion allanol dilynol wroleg sy'n destun oedi yn ymwneud yn bennaf â'r gwasanaeth ymataliaeth cymunedol ac nid y prif wasanaeth wroleg. Mae llawer o resymau wedi'u nodi, gan gynnwys llai o staff gweinyddol a chyfnewid staff nyrsio. Mae nifer o'r adolygiadau dilynol yn cael eu cynnal dros y ffôn ac mae llawer o'r rhain wedi'u cwblhau ond nad ydynt wedi'u hadlewyrchu'n gywir ar system Myrddin,</p>		Nick Wood

Cyf	Argymhelliad	Y canlyniad/mantais a fwriedir	Blaenor iaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
					<p>gan olygu bod gormod wedi'u cynnwys ar y rhestr aros ar gyfer apwyntiadau dilynol ymataliaeth/wroleg. Yn dilyn adolygiad wedi'i dargedu o'r apwyntiadau dilynol gohiriedig, mae'r sefyllfa wedi gwella'n sylweddol eisoes a bydd sefyllfa ddiwygiedig ar gael ar ddiwedd mis Mawrth 2017.</p> <p>Mae rhai o'r materion ynglŷn â'r oedi ym maes gastroenteroleg wedi deillio o godio canlyniadau'n anghywir ar gyfer gwaith dilynol ymysg cleifion allanol pan fo angen endosgopi diagnostig gwyliadwriaeth (dilynol) ar gleifion. Mae rhai cleifion wedi'u gweld eisoes ac felly nid yw'r cleifion yn destun oedi. Mae'r ymarfer glanhau hwn, gwaith dilysu clinigol, a hyfforddiant diweddar i ddefnyddwyr ar waith ar hyn o bryd.</p> <p>Bydd dull safonol o gyflwyno sicrwydd ynglŷn â'r risgiau clinigol sy'n gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol gohiriedig yn cael ei ddatblygu, gan gytuno arno, a bydd adroddiad rheolaidd yn cael ei gynnwys yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn y dyfodol.</p>	31 Mai 2017	



Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone : 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)